David J Rowlands AC
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau
Y Cynulliad Cenedlaethol

SeneddPetitions@assembly.wales

11 Mawrth 2019

Deiseb P-05-804 Rydym angen ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer chwarae!!

Annwyl Mr Rowlands

Yn dilyn derbyn eich gohebiaeth, dyddiedig 1af Chwefror, i ofyn i Chwarae Cymru am:

- ein sylwadau ar y materion a godwyd yn y ddeiseb yn gyffredinol;
- gwybodaeth am yr adolygiadau o Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynlluniau Gweithredu, a'n
- hymateb i'r sylwadau a wnaethpwyd gan y deisebwyr ynghylch eich ymgyrch gymdeithasol.

Nodaf ymateb Chwarae Cymru isod.

Am Chwarae Cymru

Chwarae Cymru yw'r elusen genedlaethol dros chwarae plant. Rydym yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth am angen a hawl plant a phobl ifanc i chwarae ac i hyrwyddo arfer dda ar bob lefel o'r broses llunio penderfyniadau ac ym mhobman ble gallai plant chwarae. Rydym yn darparu cyngor ac arweiniad i gefnogi pawb sydd â diddordeb mewn, neu sy'n gyfrifol am ddarparu ar gyfer chwarae plant fel y bydd Cymru, un diwrnod, yn wlad ble rydym yn cydnabod ac yn darparu'n dda ar gyfer anghenion chwarae pob plentyn. Mae ein tîm o chwech yn gweithio ar draws Cymru - mae ein gwaith yn cynnwys:

- Polisi
- Gwasanaeth gwybodaeth
- Cyngor a chefnogaeth
- Datblygu'r gweithlu.

One day Wales will be a place where we recognise and provide for every child's play needs

Un dydd bydd Cymru'n wlad ble y byddwn yn cydnabod ac yn darparu ar gyfer anghenion chwarae pob plentyn

National Office
Baltic House
Mount Stuart Square
Cardiff
CF10 5FH

Swyddfa Cenedlaethol
Ty Baltig
Sqwar Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FH

Tel (029) 2048 6050
Cymraeg (029) 2043 6926
Fax (029) 2048 9359

mail@playwales.org.uk
post@chwaraecymru.org.uk

www.playwales.org.uk
www.chwaraecymru.org.uk

Registered charity No. / Elusen Cofestredig Rhif. 1068926

A company limited by guarantee registered in Wales, No. / Cwmni Cyfyngedig drwy warrant cofrestrwyd yng Nghymru, Rhif. 3507258

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein sylwadau ar y materion a godwyd gan y ddeiseb

Mae'n ymddangos bod y materion a godwyd gan y deisebydd yn ymwneud yn bennaf ag ariannu ar gyfer seilwaith a darpariaeth gwaith chwarae wedi ei staffio.

Mae'n bwysig nodi, ar adeg cyflwyno Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, bod cynnwys y Dyletswyddau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n seiliedig ar ddealltwriaeth na fyddai ariannu ychwanegol ar gael ac na fyddai gofyn i awdurdodau lleol wario arian o'r newydd; ond y dylent yn hytrach, er mwyn cyflawni'r dyletswydd orau, ystyried gwario cyllid sydd ar gael eisoes mewn modd gwahanol.

Er hynny, mae Chwarae Cymru wedi hen ymgyrchu am ariannu penodol a pharhaus ar gyfer chwarae ers ein sefydlu yn 1998.

Mae'n bwysig nodi bod awdurdodau lleol, ers 2012-13, wedi derbyn oddeutu £9,000,000 gan Lywodraeth Cymru (trwy gyllidebau a ail-ddyrannwyd) er mwyn ymateb i'w camau gweithredu digonolrwydd cyfleoedd chwarae lleol penodol. Fel rhan o'u cynlluniau gweithredu, mae awdurdodau lleol yn ystyried ac yn cynnwys camau gweithredu allai gael eu symud ymlaen os bydd cyllid ar gael. Felly, er bod materion penodol o ran amseru a chapasiti gydag ariannu un-tro a thymor byr, mae'n ymddangos bod y mwyafrif o awdurdodau lleol (os yw eu gweithdrefnau gwario lleol yn caniatáu hynny) mewn sefyllfa cymharol barod i ymateb pan ddaw arian ar gael sydd angen ei wario o fewn cyfnod byr. Dylid nodi, fodd bynnag, efallai na fydd hyn mor effeithiol ag ymrwymiad o'r un swm o ariannu rheolaidd ar gyfer camau gweithredu strategol tymor hir. Er hynny, rydym ar ddeall bod unrhyw ariannu sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon, waeth beth yw'r amserlen ar gyfer ei wario.

Tra ceir pryderon bod dyrannu ariannu trwy grantiau un-tro yn arwain at gamau gweithredu neu weithgarwch tymor byr o ran grantiau, ein barn ni yw bod yr ariannu hyn wedi galluogi awdurdodau lleol i ymateb i ddiffygion mewn darpariaeth chwarae lleol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu efallai nad yw sefydliadau chwarae gwirfoddol lleol, fel y deisebydd, yn derbyn y budd mwyaf effeithlon o'r ariannu yma. Efallai y gellid datrys y mater hwn trwy atodi canllawiau cysylltiedig cryfach oddi wrth Lywodraeth Cymru wrth ryddhau cyllid.

Gwybodaeth am ein hadolygiadau o Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Chynlluniau Gweithredu

Mae Chwarae Cymru wedi cynnal dadansoddiad blynyddol o gynlluniau gweithredu ac adolygiadau o gynnydd digonolrwydd cyfleoedd chwarae awdurdodau lleol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2017 a Mehefin 2018. Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad o Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae statudol cyflawn a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol yn 2016. Yn ystod pob un o'r adolygiadau, gofynnwyd i Chwarae Cymru ddarparu trosolwg o feysydd penodol:

- *2016* – dadansoddiad o Fater E (Datblygu'r Gweithlu)
- *2017* - dynodi materion oedd yn peri pryder, enghreifftiau o arfer dda a heriau a rhwystrau allai gael eu datrys gan amrywiol feysydd polisi Llywodraeth Cymru gaiff eu cwmpasu ym Mater Ff (Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol). Yn ogystal, gofynnodd Llywodraeth Cymru am wybodaeth ar gyfleoedd chwarae ar gyfer plant anabl, gan roi sylw penodol i hygyrchedd mannau ac ardaloedd chwarae. Cyflwynwyd gwybodaeth am hyn mewn papur ar wahân, *Accessibility of play spaces for disabled children.*
- *2018* – camau gweithredu a aseswyd yn lleol sydd yn symud ymlaen ar lefel coch neu felyn, er mwyn hysbysu dyraniad ariannu posibl, os bydd cyllid ar gael.

Yn yr adolygiadau hyn, gofynnwyd i Chwarae Cymru ddarparu trosolwg o'r:

- Cynnydd sy'n cael ei wneud ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru
- Cynnydd ar gamau gweithredu o ddiddordeb cenedlaethol.

Mae dadansoddiadau o'r dogfennau'n dynodi bod y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn dal i weithredu fel sbardun cenedlaethol ar gyfer cynllunio darpariaeth chwarae'n lleol. Ledled Cymru, mae'n ymddangos bod cynnydd wedi ei wneud o ran cyflawni rhai o'r Cynlluniau Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Fodd bynnag, digwyddodd hyn yn bennaf o ganlyniad i ariannu ychwanegol Grantiau Cyfleoedd Chwarae Cymru-gyfan a ddyrannwyd i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2017 a mis Tachwedd 2018.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiadau a'r cynlluniau gweithredu yn amrywio ar draws Cymru; mae hyn i'w ddisgwyl. Mae ehangder y Materion, capasiti amrywiol awdurdodau lleol a'r modelau trosglwyddo hanesyddol o awdurdod lleol i awdurdod lleol yn golygu bod dadansoddiad Cymru-gyfan yn anodd. Er hynny, mae cost amser swyddogion yn dal i gael ei ddynodi'n gyson fel y rhwystr pennaf i symud camau gweithredu yn eu blaen fel rhan o'r Cynlluniau Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. At hynny, gellir rhagweld y bydd cyfyngiadau ariannol cynyddol ddifrifol yn arwain at leihad yng nghapasiti awdurdodau lleol a'u partneriaid, fydd yn effeithio'n sylweddol ar unrhyw gynnydd wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau a glustnodwyd.

Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r adolygiadau'n nodi, er gwaethaf y pwysau ariannol sylweddol digyffelyb sy'n wynebu awdurdodau lleol, y bu ymdrechion i symud camau gweithredu ymlaen ledled Cymru. Mae'n ymddangos bod cydweithredu da rhwng adrannau o fewn awdurdodau lleol. Mae hyn yn fwyaf amlwg yn yr ardaloedd hynny sydd â swyddog arweiniol digonolrwydd cyfleoedd chwarae penodedig.

Cyfeirir at doriadau mewn ariannu lleol, ffocws o'r newydd ar raglen Teuluoedd yn Gyntaf a'r penderfyniad i gau rhaglen Cymunedau'n Gyntaf, ar draws yr holl adroddiadau cynnydd fel elfennau sydd wedi cyfrannu at yr ansicrwydd a'r her o gynnal lefelau o ddarpariaeth chwarae wedi ei staffio.

Mae'n destun pryder i Chwarae Cymru, tra bo Llywodraeth Cymru yn wreiddiol wedi cyflwyno ail ran y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar 'sail niwtral o ran cost', ynghyd â neges ddiamwys na fyddai ariannu pellach ar gael, yr oedd disgwyl ymhlyg na fyddai llai o fuddsoddiad gan awdurdodau lleol i gefnogi chwarae plant.

Ymgyrch newid cymdeithasol Chwarae Cymru

Mae ymgyrch *Plentyndod Chwareus* Chwarae Cymru'n helpu rhieni, gofalwyr, teidiau a neiniau a grwpiau cymunedol i roi cyfleoedd da i blant chwarae adref ac yn eu cymdogaethau. Un elfen allweddol o'r ymgyrch hon oedd lansiad, ym mis Hydref 2018, gwefan ddwyieithog newydd – *Plentyndod Chwareus* | *Playful Childhoods.*

Yn ystod haf 2018, hwylusodd Chwarae Cymru saith sioe deithiol '*Hawl i Chwarae'* ledled Cymru. Fe weithiom gyda darparwyr chwarae lleol i ymgysylltu â'r cyhoedd i drafod yr hawl a'r angen i chwarae yn ac o amgylch cymunedau a phwysigrwydd gweld cymunedau'n gweithredu i warchod yr hawl hwn. Fe gynhyrchom ddeunyddiau hyrwyddo sy'n pwysleisio pwysigrwydd chwarae ac sy'n cyfeirio pobl at ein gwefan *Plentyndod Chwareus* | *Playful Childhoods.*

Lleolwyd ein digwyddiadau cyntaf mewn ardaloedd ble mae diffyg cymdeithasau chwarae lleol. Rydym wrthi'n codi arian ar hyn o bryd gyda'r bwriad o drosglwyddo sioeau teithiol tebyg mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod hwn o hyrwyddo ac ymgysylltu, ein bwriad yw gweithio gyda mudiadau a darparwyr chwarae lleol (fel y deisebydd) i'w helpu i hyrwyddo'r hawl i chwarae yn well ynghyd â'u gwasanaethau lleol.

Ar adeg lansio'r wefan, dosbarthwyd pecyn dwyieithog o wybodaeth i'r wasg a'r cyfryngau ymysg nifer fawr o bartneriaid (yn cynnwys y deisebydd), yn gofyn iddynt ein helpu i ledaenu'r neges am *Plentyndod Chwareus* | *Playful Childhoods.* Yn ogystal â chyflwyno'r wefan newydd, fe ddarparom ystod o adnoddau i helpu gyda'r gwaith o rannu'r wybodaeth gyda rhwydweithiau lleol:

- Testun ar gyfer gwefannau, cylchlythyrau ac e-fwletinau
- Negeseuon cyfryngau cymdeithasol a hashnodau
- Ffotograffau a gwaith graffeg
- Posteri gwybodaeth.

Mae ymgyrch *Plentyndod Chwareus* | *Playful Childhoods* yn llwybr cymharol wahanol i Chwarae Cymru o'i gymharu â'n gwaith blaenorol, sy'n canolbwyntio ar gynulleidfa broffesiynol a lled-broffesiynol. Mae *Plentyndod Chwareus* | *Playful Childhoods* yn rhoi cyfle inni gynnig cefnogaeth fwy effeithlon i gynulleidfa leyg – yn rhieni a'r cyhoedd yn gyffredinol – gyda gwybodaeth a chefnogaeth hygyrch.

Mae'r wefan yn llwyddo i gyrraedd ei chynulleidfa darged - rhieni, gofalwyr a mam-guod a thad-cuod, ac mae'r adborth hyd yma'n gadarnhaol iawn. Rydym hefyd yn cyrraedd ac yn ymgysylltu â'r gynulleidfa darged trwy dudalennau Facebook ac Instagram *Plentyndod Chwareus* | *Playful Childhoods*.

Ers y lansiad, daeth yn amlwg hefyd bod y wefan a'r adnoddau cysylltiedig, fel y *Llyfryn magu plant yn chwareus*, yn werthfawr a defnyddiol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd. Rydym wedi derbyn nifer o geisiadau am gopïau caled o'n hadnoddau a'n deunyddiau er mwyn creu arddangosfeydd mewn lleoliadau fel Canolfannau Gwybodaeth i Deuluoedd.

Os byddwch angen eglurhad pellach ar y materion hyn neu os oes gennych gwestiynau eraill, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir



Mike Greenaway
Cyfarwyddwr